# Y Pwyllgor Busnes

**Cofnodion BC(3)11-08**

**Dyddiad:** Dydd Mawrth 22 Ebrill 2008

**Amser:** 8.30am

**Lleoliad:** Ystafell Gyfarfod, Llawr 4, yr Uned Gorfforaethol

**Aelodau'r Cynulliad yn bresennol**

Dafydd Elis-Thomas, Llywydd (Cadeirydd)

Carwyn Jones, Arweinydd y Tŷ

Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru

William Graham, Rheolwr Busnes y Ceidwadwyr Cymreig

Kirsty Williams, Rheolwr Busnes y Democratiaid Rhyddfrydol

**Swyddogion yn bresennol**

Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad

Siwan Davies, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Siambr

Aled Eirug, Ymgynghorydd Cyfansoddiadol

Marion Stapleton, Swyddfa Arweinydd y Tŷ

Marc Wyn Jones, Clerc y Pwyllgor Busnes

**1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau**

**2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

**(i) BC(3)10-08 (Cofnodion drafft) - dydd Mawrth 15 Ebrill 2008**

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i'r pwyllgor ar eu ffurf drafft. Gan nad oedd unrhyw sylwadau, cânt eu cyfieithu yn barod i gael eu cyhoeddi.

**Camau i'w cymryd: Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes**

**3. Busnes i ddod**

**Busnes yr wythnos hon - BC(3)11-08(p1)**

3.1 Trafododd y Pwyllgor Busnes y Cyfnod Pleidleisio gan benderfynu ei gynnal yn gynharach. Cytunodd y Pwyllgor na chaiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal cyn 4.30pm fel arfer ar ddydd Mercher ar gyfer busnes y Cynulliad a busnes heblaw busnes y Llywodraeth.

3.2 Nododd y pwyllgor drefn y busnes ar gyfer 22 a 23 Ebrill 2008.

**Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf - BC(3)11-08(p2)**

3.3 Nododd y pwyllgor amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

**Amserlen busnes y Cynulliad a busnes heblaw busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf- BC(3)11-08(p3)**

3.4 Dywedodd y Cadeirydd fod angen aildrefnu'r ddadl ar gynnig Nerys Evans ar gyfer Mesur ynghylch Ailgylchu a ohiriwyd ar 9 Ebrill. Cytunodd y Pwyllgor Busnes i aildrefnu'r ddadl ar gyfer dydd Mercher 30 Ebrill. Cytunodd y Pwyllgor wedyn i ohirio'r ddadl tan 7 Mai.

3.5 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn busnes y Cynulliad.

3.6 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn busnes heblaw busnes y Llywodraeth.

**4. Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol**

**Cais gan y Pwyllgor ar y Gorchymyn arfaethedig ynghylch Plant Hawdd eu Niweidio i gynnal cyfarfod ar y cyd â Phwyllgor Materion Cymreig Tŷ'r Cyffredin** - **BC(3)11-08(p4)**

4.1 Dywedodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor wedi derbyn cais gan y Pwyllgor ar y Gorchymyn Arfaethedig ynghylch Plant Hawdd eu Niweidio i gynnal cyfarfod ar y cyd â Phwyllgor Materion Cymreig Tŷ'r Cyffredin er mwyn craffu ar "Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol

Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Lles Cymdeithasol a Meysydd Eraill) 2008," ddydd Iau 8 Mai 2008. Cytunodd y Pwyllgor Busnes i'r cais.

**Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor ar y Gorchymyn Arfaethedig ynghylch Tai Fforddiadwy ac Adroddiad y Pwyllgor - BC(3)11-08(p5)**

4.2 Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor ar y Gorchymyn Arfaethedig ynghylch Tai Fforddiadwy ac adroddiad y pwyllgor.

**5. Pwyllgorau'r Cynulliad**

**Cais gan y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol i ymweld â Organización Nacional de Transplantes, Madrid - BC(3)11-08(p6)**

5.1 Trafododd y pwyllgor gais gan y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol i ymweld â Organización Nacional de Transplantes, Madrid fel rhan o'i ymchwiliad i ganiatâd tybiedig i roi organau ddydd Llun 12 Mai 2008. Cymeradwyodd y Pwyllgor Busnes y cais.

**Cais gan y Pwyllgor Cyllid i ymweld â Belfast a Chaeredin - BC(3)11-08(p7)**

5.2 Trafododd y Pwyllgor gais gan y Pwyllgor Cyllid i ymweld â Belfast a Chaeredin fel rhan o'i ymchwiliad i Bartneriaethau Cyhoeddus-Preifat rhwng 7 - 9 Mai. Cymeradwyodd y Pwyllgor y cais.

**YSGRIFENYDDIAETH Y PWYLLGOR BUSNES**